Arolygiaeth Gofal **Cymru**
Care Inspectorate **Wales**

# Adroddiad Arolygu ar gyfer

**Stradey Park House**

**61 HEOL NEWYDD**
**LLANELLI**
**SA15 3DP**

**This report is also available in English**

**Mae'r adroddiad hwn hefyd ar gael yn Saesneg**

## Dyddiad Cwblhau'r Arolygiad

15/10/2019

Adroddiad terfynol heb ei gyhoeddi

Adroddiad terfynol heb ei gyhoeddi

***Llywodraeth Cymru © Hawlfraint y Goron 2019.***
*Cewch ddefnyddio ac ailddefnyddio'r wybodaeth sydd yn y cyhoeddiad hwn (ac eithrio'r logos) yn ddi-dâl, mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored. Gallwch weld y Drwydded Llywodraeth Agored ar wefan yr Archifau Gwladol, neu gallwch ysgrifennu at The Information Policy Team, The National Archives, Kew, London, TW9 4DU, neu anfon e-bost at: psi@nationalarchives.gsi.gov.uk*
*Rhaid i chi atgynhyrchu ein deunydd yn fanwl gywir a pheidio â'i ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol.*

## Disgrifiad o'r gwasanaeth

Mae Stradey Park House wedi'i leoli yn nhref Llanelli. Y darparwr gwasanaeth, sydd wedi'i gofrestru ag Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC) i ddarparu gwasanaeth cartref gofal i wyth o bobl, yw Stradey Park Care Homes Ltd. Mae rheolwr wedi'i gyflogi sydd wedi cofrestru â Gofal Cymdeithasol Cymru

## Crynodeb o'n canfyddiadau

### 1. Asesiad cyffredinol

Dywedodd y bobl sy'n byw yn Stradey Park House eu bod yn hapus â'r gofal a'r cymorth a ddarperir. Mae'r cartref yn gyfforddus ac mae'r amgylchedd yn diwallu anghenion y bobl sy'n byw yno. Gwelsom fod y gweithwyr gofal yn adnabod y bobl yn dda ac yn ymateb i'w hanghenion. Caiff y bobl gyfleoedd i gymryd rhan mewn gweithgareddau sydd o ddiddordeb iddynt. Mae'r gweithwyr gofal a'r rheolwyr yn dangos ymrwymiad i ddarparu gwasanaeth o ansawdd da ac mae ganddynt systemau cynllunio gofal a sicrhau ansawdd da ar waith i'w helpu i gyflawni hyn.

### 2. Gwelliannau

Yr arolygiad hwn oedd yr arolygiad cyntaf o’r cartref o dan Ddeddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016.

### 3. Gofynion ac argymhellion

Mae adran pump o'r adroddiad hwn yn nodi ein hargymhellion ar gyfer gwella'r gwasanaeth. Mae'r rhain yn cynnwys argymhellion mewn perthynas â gwybodaeth am y gwasanaeth a gwaith cynnal a chadw.

Adroddiad terfynol heb ei gyhoeddi

## 1. Llesiant

### Ein canfyddiadau

Mae arferion a phrosesau'r gwasanaeth yn helpu'r bobl i fod yn iach, yn gorfforol ac yn emosiynol. Roedd y bobl a oedd yn defnyddio'r gwasanaeth yn dangos eu bod yn hapus â'r gofal a'r cymorth roeddent yn eu cael. Dywedodd un person wrthym *"I love my home"*. Gwelsom eu bod yn gallu gwneud dewisiadau ynghylch materion o ddydd i ddydd megis sut i dreulio'r diwrnod a beth i'w fwyta a'i yfed. Gwelsom fod y bobl yn cael cyfleoedd i gymryd rhan mewn gweithgareddau yn y cartref ac yn y gymuned. Roedd cynllun y cartref ac ystafelloedd y bobl eu hunain yn darparu amgylchedd iddynt lle y gallent fod yn gyfforddus a dilyn eu diddordebau eu hunain.

Gwelsom fod y staff yn adnabod y bobl yn dda iawn ac yn poeni am eu llesiant. Gwelsom fod y bobl sy'n byw yn y cartref yn edrych yn gyfforddus yn eu hamgylchedd ac wrth gyfathrebu â'r gweithwyr gofal. Yn ogystal, roedd y bobl yn cael eu cefnogi i gynnal cydberthnasau â pherthnasau a chael ffrindiau yn y gymuned. Roedd dogfennaeth yn y cartref a oedd yn rhoi trosolwg o hanes bywyd y bobl, eu hoff bethau, eu cas bethau a'u harferion ac yn amlinellu'r ffordd y dylid darparu gofal a chymorth y bobl.

Yn ogystal â'r gofal a'r cymorth a ddarperir gan y gweithwyr gofal yn y cartref, roedd y bobl yn cael eu cefnogi i gael gafael ar gymorth gan amrywiaeth o weithwyr iechyd proffesiynol allanol. Gwelsom dystiolaeth bod y bobl a'u cynrychiolwyr wedi bod yn rhan o'r gwaith o gynllunio a chyflwyno'r gwasanaeth a ddarperir yn y cartref. Gwnaethom hefyd archwilio cofnodion cyfarfodydd y preswylwyr. Mae'r rhain yn dangos bod y bobl yn siarad am eu profiadau yn y cartref yn rheolaidd ac yn mynegi dymuniadau mewn perthynas â gweithgareddau yr hoffent gymryd rhan ynddynt.

Gwelsom fod y gofal a'r cymorth a ddarperir i'r bobl yn cael eu monitro a'u hadolygu mewn ffordd amserol. Gwelsom fod y bobl yn cael eu diogelu rhag y risg o gam-drin neu esgeulustod. Roedd y bobl a oedd yn byw yn y gwasanaeth yn gwybod at bwy y dylent fynd os oedd ganddynt bryderon ac roedd y gweithwyr gofal yn gyfarwydd â'r gweithdrefnau i'w dilyn os oeddent yn ymwybodol o unrhyw broblemau.

Adroddiad terfynol heb ei gyhoeddi

Yn ogystal â dogfennaeth gofal y bobl eu hunain, roedd gan y darparwr gwasanaeth bolisïau a gweithdrefnau ar waith a oedd yn rhoi cyfarwyddiadau pellach i'r staff o ran sut i ddarparu'r gwasanaeth.

Dangosodd y cofnodion a archwiliwyd gennym, ein harsylwadau ar ddiwrnod yr arolygiad a'r adborth a gafwyd gan y bobl, fod y gofal a'r cymorth yn cael eu darparu fel y dylent. Felly, down i'r casgliad bod y bobl yn cael y gofal a'r cymorth sydd eu hangen arnynt i aros mor iach â phosibl ac i wneud y pethau sy'n eu gwneud yn hapus.

Adroddiad terfynol heb ei gyhoeddi

## 2. Gofal a Chymorth

### Ein canfyddiadau

Gall y bobl fod yn dawel eu meddwl y byddant yn cael y gofal cywir ar yr adeg gywir. Dangosodd trafodaethau ac arsylwadau yn ystod ein harolygiad fod gan y gweithwyr gofal wybodaeth ragorol am anghenion unigolion ac roeddent yn gallu rhagweld anghenion ac ymateb iddynt. Gwelsom fod dogfennaeth gofal ar waith ar gyfer pob unigolyn. Roedd hyn yn cynnwys cynlluniau personol a oedd yn manylu ar y ffordd y dylid cefnogi'r bobl, asesiadau risg, proffil personol (yn cynnwys hanes bywyd y bobl, eu hoff bethau a'u cas bethau) a siartiau monitro. Roedd y rhain yn disgrifio'r ffordd y dylid darparu'r gofal a'r cymorth ac yn galluogi'r gweithwyr gofal i gofnodi pa ofal a ddarparwyd. Roedd ein harsylwadau ar ddiwrnod yr arolygiad yn adlewyrchu dogfennaeth gofal y bobl a'r hyn y dywedodd y bobl wrthym eu bod yn eu hoffi. Roedd hyn yn cynnwys cynlluniau mewn perthynas ag anghenion maeth. Gwelsom fod y cynlluniau hyn yn fanwl a gwelsom fod y prydau a'r diodydd a ddarperir yn y cartref yn unol â'r cynlluniau. Gwnaethom hefyd nodi bod cofnodion yn cael eu hadolygu'n rheolaidd. Yn ogystal â'r gofal a'r cymorth a ddarperir gan y darparwr gwasanaeth, gwelsom fod y bobl yn cael eu hatgyfeirio at weithwyr iechyd a gofal cymdeithasol proffesiynol priodol pan oedd eu hanghenion yn newid ac i reoli cyflyrau iechyd parhaus. Yn ogystal, roedd y bobl yn cael eu cefnogi i fynychu apwyntiadau iechyd rheolaidd. Yn seiliedig ar yr uchod, rydym o'r farn bod y bobl yn cael y gofal cywir, ar yr adeg gywir, yn y ffordd a fynnant.

Mae gan y darparwr gwasanaeth ddulliau ar waith i sicrhau bod y bobl yn ddiogel ac yn cael eu hamddiffyn rhag cael eu cam-drin a'u hesgeuluso. Roedd trafodaethau â'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth ac â'r staff yn dangos eu bod yn gwybod at bwy y dylent fynd os oedd ganddynt unrhyw bryderon. Gwelsom fod y darparwr gwasanaeth wedi sicrhau, pan oedd cyfyngiadau ar unigolyn, y caiff yr asiantaethau perthnasol eu cynnwys a bod awdurdodiadau perthnasol ar waith, er enghraifft y Trefniadau Diogelu wrth Amddifadu o Ryddid (DoLS). Yn ogystal, gwelsom fod gan y darparwr gwasanaeth bolisi mewn perthynas â diogelu oedolion sy'n agored i niwed a bod y staff wedi cael yr hyfforddiant perthnasol. Ar y cyfan, mae'r bobl yn ddiogel ac wedi'u hamddiffyn rhag camdriniaeth.

Mae systemau ar gyfer rheoli meddyginiaethau ar waith. Gwelsom lle roedd meddyginiaeth yn cael ei storio, a gwnaethom arsylwi ar y staff yn rhoi rhywfaint o feddyginiaeth ac archwilio cofnodion. Gwelsom fod meddyginiaeth yn cael ei storio'n ddiogel a'i bod yn cael ei rhoi i'r bobl yn unol â'u cynllun meddyginiaeth unigol. Roedd y cofnodion rhoi meddyginiaethau y gwnaethom eu harchwilio wedi'u cwblhau'n llawn ac yn dangos bod yr holl feddyginiaeth wedi cael ei rhoi fel y rhagnodwyd.

Adroddiad terfynol heb ei gyhoeddi

Gwnaethom nodi bod gan y darparwr gwasanaeth bolisïau a gweithdrefnau ar waith. At hynny, gwelsom fod y staff wedi cael hyfforddiant ar feddyginiaeth a bod eu cymhwysedd wedi cael ei asesu. Ar y cyfan, rydym o'r farn bod systemau diogel ar waith ar gyfer rheoli meddyginiaeth er mwyn sicrhau bod y bobl yn cael y feddyginiaeth gywir ar yr adeg gywir.

Adroddiad terfynol heb ei gyhoeddi

## 3. Yr Amgylchedd

### Ein canfyddiadau

Caiff llesiant y bobl ei wella am fod amgylchedd byw glân, cyfforddus ac wedi'i bersonoli ar gael iddynt. Roedd y llety wedi'i leoli ar ddau lawr. Roedd cadair godi yn rhoi mynediad i'r llawr cyntaf i'r rhai hynny yr oedd ei angen arnynt. Hefyd, mae gan y bobl fynediad i ardal flaen-gwrt ddymunol ym mlaen yr eiddo pan fydd hi'n braf. Roedd seddi yn yr ardal ble caiff potiau planhigion eu harddangos i'r bobl eu mwynhau os byddant yn dymuno gwneud hynny. Gwnaethom nodi bod y dodrefn, gwaith celf, ffotograffau a chofroddion a oedd wedi'u harddangos mewn rhannau gwahanol o'r cartref yn adlewyrchu anghenion a diddordebau'r bobl a oedd yn byw yno. Roedd nifer o ardaloedd cymunedol ar gael i'r bobl lle y gallent gymdeithasu. Gwelsom hefyd fod y bobl yn symud o gwmpas y cartref yn rhydd yn ystod yr arolygiad. Dywedodd y rheolwr wrthym mai'r lolfa llai o faint a oedd yn agosach at y gegin a oedd yn cael ei defnyddio fwyaf am fod y bobl yn hoffi gweld yr hyn a oedd yn digwydd, a gwelsom hyn hefyd. Roedd yr ail lolfa ym mlaen y cartref ac nid oedd yn cael ei defnyddio mor aml. Dywedwyd wrthym fod y lolfa hon yn cael ei defnyddio yn bennaf ar gyfer diddanu ymwelwyr, cynnal adolygiadau gofal â gweithwyr proffesiynol eraill neu ar gyfer amser tawel pan oedd y bobl am gael hynny. Gwelsom fod gan y cartref drefniadau da ar waith i sicrhau bod yr holl gofnodion yn cael eu storio'n ddiogel. Yn seiliedig ar ein canfyddiadau, rydym o'r farn y caiff llesiant y bobl ei wella am fod amgylchedd pleserus ar gael iddynt sy'n lle braf i fyw ynddo.

Mae amgylchedd y cartref yn ddiogel. Wrth gyrraedd y cartref, gwelsom fod y fynedfa i'r cartref ar glo a chadarnhawyd pwy oeddem cyn i ni fynd i mewn i'r eiddo. Gwelsom gofnodion iechyd a diogelwch y cartref a gwelsom fod proses ar waith i sicrhau bod gwiriadau diogelwch gan gontractwyr allanol yn cael eu cynnal yn ôl yr angen. Gwelsom hefyd fod y darparwr gwasanaeth yn cynnal gwiriadau rheolaidd. Roedd y rhain yn cynnwys gwiriadau nwy, trydanol, tân a dŵr. Yn ogystal, gwelsom fod gan y bobl gynllun personol ar gyfer gwagio'r adeilad mewn argyfwng (PEEP). Gwnaethom gynnal arolygiad gweledol o'r cartref a gwelsom nad oedd unrhyw beryglon ar y cyfan. Fodd bynnag, gwelsom ardaloedd yr oedd angen rhoi sylw iddynt, a oedd yn cynnwys y growt yn ystafell y gawod, roedd angen clo newydd ar y cwpwrdd trydanol, roedd angen trwsio'r llawr a oedd yn arwain at y garej ac roedd y gwaith paent yn y cartref wedi treulio. Gwnaethom drafod gofynion cynnal a chadw â'r unigolyn cyfrifol a gwnaethom argymell y dylid rhoi rhaglen cynnal a chadw barhaus ar waith er mwyn mynd i'r afael â'r ardaloedd hyn. Gwelsom fod y teils yn y gegin wrthi'n cael eu newid. Mewn perthynas â hylendid bwyd, gwnaethom nodi bod yr Asiantaeth Safonau Bwyd

Adroddiad terfynol heb ei gyhoeddi

wedi rhoi sgôr o bump (da iawn) i'r cartref. Ar sail yr uchod, rydym o'r farn bod y darparwr gwasanaeth yn nodi ac yn lliniaru risgiau er mwyn sicrhau diogelwch y bobl ar y cyfan.

Adroddiad terfynol heb ei gyhoeddi

## 4. Arwain a Rheoli

### Ein canfyddiadau

Mae'r bobl yn cael gwybodaeth gywir am y gwasanaeth. Mae Datganiad o Ddiben a Chanllaw i Ddefnyddwyr y Gwasanaeth yn disgrifio'r gwasanaeth a ddarperir yn gywir, yn nodi'r ffordd y caiff y gwasanaeth ei ddarparu ac yn nodi bod angen i'r trefniadau i gefnogi'r gwaith o ddarparu'r gwasanaethau fod ar gael. Gwelsom fod y Datganiad o Ddiben yn cynnwys yr holl wybodaeth angenrheidiol. Rydym o'r farn bod y bobl yn cael digon o wybodaeth gywir am y gwasanaeth i wneud dewisiadau ar sail gwybodaeth.

Gall y bobl fod yn dawel eu meddwl bod gan y staff y wybodaeth, y cymhwysedd, y sgiliau a'r cymwysterau angenrheidiol ac y cânt eu cefnogi a'u datblygu. Roedd trafodaethau â'r bobl, y gweithwyr gofal ac archwiliadau o gofnodion yn dangos bod tîm sefydledig ar waith ac roedd y rhan fwyaf o'r aelodau wedi bod yn eu swyddi am sawl blwyddyn. Roedd nifer digonol o weithwyr gofal ar ddyletswydd bob amser. Gwelsom fod gan y gweithwyr gofal y cymhwyster a argymhellir gan Gofal Cymdeithasol Cymru. At hynny, gwelsom fod gan y darparwr gwasanaeth drefniadau ar waith er mwyn sicrhau bod yr holl weithwyr gofal yn cael eu cefnogi a'u datblygu. Dywedwyd wrthym eu bod yn cael eu cefnogi gan yr unigolyn cyfrifol, y rheolwr a gan eu cydweithwyr. Dywedodd un aelod o'r tîm y gwnaethom siarad ag ef wrthym na allai ofyn am unigolyn cyfrifol na rheolwr gwell, a dywedodd person arall ei fod yn teimlo ei fod yn cael ei gefnogi ac yn cael y wybodaeth ddiweddaraf bob amser. Roedd y cofnodion a welsom yn dangos bod y gweithwyr gofal yn cael eu goruchwylio'n rheolaidd, yn cael arfarniadau blynyddol, yn mynychu cyfarfodydd tîm ac yn cael hyfforddiant rheolaidd. Felly, down i'r casgliad bod y staff yn gymwys iawn i wneud cyfraniadau cadarnhaol at lesiant y bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth.

Adroddiad terfynol heb ei gyhoeddi

Mae gan y cartref drefniadau ar gyfer recriwtio a sefydlu gweithwyr gofal. Gwnaethom archwilio tair ffeil personél a gwelsom fod y gwiriadau perthnasol wedi cael eu cynnal gan gynnwys gwiriadau o ddatgeliadau troseddol, hanes cyflogaeth llawn a geirdaon cyn iddynt ddechrau yn eu swyddi. Gwelsom hefyd fod y gweithwyr gofal a recriwtiwyd yn ddiweddar wedi cael cyfnod sefydlu llawn. Rydym o'r farn bod y bobl mor ddiogel â phosibl a bod y darparwr gwasanaeth yn bodloni gofynion cyfreithiol mewn perthynas â recriwtio a sefydlu.

Mae gan y darparwr gwasanaeth drefniadau cadarn ar waith ar gyfer monitro ansawdd y gofal a'r cymorth a ddarperir gan y gwasanaeth. Disgrifiodd y rheolwr y mesurau sicrhau ansawdd sydd ar waith

a rhoddodd dystiolaeth ddogfennol i ni. Roedd y rhain yn cynnwys ymweliadau monitro bob chwarter gan yr unigolyn cyfrifol ac adolygiad o ansawdd y gofal. Gwnaethom nodi bod y rhain yn cwmpasu pob agwedd ar y gwasanaeth a ddarperir gan gynnwys canlyniadau i'r bobl, adborth gan y bobl a materion iechyd a diogelwch. Dyddiad yr adolygiad sicrhau ansawdd diwethaf a welsom oedd mis Gorffennaf 2019. Daethom i'r casgliad bod y bobl yn cael gwasanaeth gan ddarparwr sy'n ymrwymedig i ddarparu gwasanaeth da ac sydd â phrosesau a gweithdrefnau i sicrhau bod adolygiadau rheolaidd o'r gofal a'r cymorth gwirioneddol a ddarperir yn y cartref.

Adroddiad terfynol heb ei gyhoeddi

# 5. Gwelliannau sydd eu hangen ac a argymhellir yn dilyn yr arolygiad hwn

## 5.1 Meysydd o ddiffyg cydymffurfio a nodwyd mewn arolygiadau blaenorol

Ddim yn gymwys, yr arolygiad hwn oedd yr arolygiad cyntaf o'r cartref o dan Ddeddf Rheoleiddio ac
Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016.

## 5.2 Argymhellion ar gyfer gwella

- Ystyried rhoi rhaglen cynnal a chadw barhaus ar waith.

Adroddiad terfynol heb ei gyhoeddi

## 6. Sut y gwnaethom gynnal yr arolygiad hwn

Roedd hwn yn arolygiad llawn a gynhaliwyd fel rhan o'n rhaglen arolygu. Gwnaethom ymweld â'r cartref yn ddirybudd ar 15 Hydref 2019 rhwng 09:30 a 16:45.

Ystyriwyd y rheoliadau canlynol fel rhan o'r arolygiad hwn:

- Rheoliadau Gwasanaethau Rheoleiddiedig (Darparwyr Gwasanaethau ac Unigolion Cyfrifol) (Cymru) 2017.

Defnyddiwyd y dulliau canlynol:

- Gwnaethom ystyried y wybodaeth a ddelir gan AGC am y gwasanaeth.
- Gwnaethom adolygu Datganiad o Ddiben y cartref a'i gymharu â'r gwasanaeth a welsom ar waith. Mae'r Datganiad o Ddiben yn pennu'r weledigaeth ar gyfer y gwasanaeth ac yn dangos y ffordd y bydd y gwasanaeth yn hyrwyddo'r canlyniadau gorau posibl ar gyfer y bobl y mae'n gofalu amdanynt, yn enwedig o ran y lefelau staffio a hyfforddiant ac ati.
- Cawsom ein tywys o amgylch y cartref i ystyried yr amgylchedd mewnol ac allanol.
- Trafodaethau â'r rheolwr a'r gweithwyr gofal.
- Gwnaethom siarad â'r bobl sy'n byw yn y cartref.
- Gwnaethom edrych ar ddogfennaeth gofal ar gyfer tri pherson.
- Gwnaethom edrych ar dair ffeil personél.
- Gwnaethom ystyried sesiynau goruchwylio, arfarnu, sefydlu a hyfforddi'r staff.
- Gwnaethom ystyried cofnodion mewn perthynas â chofnodion archwilio mewnol y cartref.
- Gwnaethom ystyried polisïau a gweithdrefnau'r cartref.
- Gwnaethom edrych ar arferion gofal a threfniadau'r cartref.

Adroddiad terfynol heb ei gyhoeddi

Ceir rhagor o wybodaeth am yr hyn rydym yn ei wneud ar ein gwefan:
www.arolygiaethgofal.cymru

Adroddiad terfynol heb ei gyhoeddi

## Ynglŷn â'r gwasanaeth

| | |
|---|---|
| **Y math o ofal a ddarperir** | **Gwasanaeth Cartref Gofal** |
| **Darparwr y Gwasanaeth** | **STRADEY PARK CARE HOMES LTD** |
| **Rheolwr** | **Rachel Edwards** |
| **Uchafswm y lleoedd a gofrestrwyd** | **8** |
| **Dyddiad arolygiad blaenorol Arolygiaeth Gofal Cymru** | **11/07/2017** |
| **Dyddiad yr ymweliad(au) arolygu hwn** | **15/10/2019** |
| **Iaith weithredol y gwasanaeth** | **Y ddwy** |
| **A yw'r gwasanaeth hwn yn darparu'r Cynnig Rhagweithiol ar gyfer y Gymraeg?** | **Mae'r gwasanaeth hwn yn gweithio tuag at ddarparu'r 'Cynnig Rhagweithiol' ar gyfer y Gymraeg ac mae'n bwriadu dod yn wasanaeth dwyieithog neu mae'n gwneud cryn ymdrech i hyrwyddo defnydd o'r Gymraeg a diwylliant Cymru.** |
| **Gwybodaeth Ychwanegol:** | |

Adroddiad terfynol heb ei gyhoeddi

**Dyddiad Cyhoeddi** 19/02/2020